Amserlen Dros Dro

Targed	Dyddiad gorffen
Arweiniad i staff Darparu arweiniad i staff ar sut i weithredu a chyflawni'r ymrwymiadau a wnaed yn y cynllun.	**Ar waith erbyn i'r cynllun gael ei gymeradwyo**
Adolygiad o gyhoeddiadau Dod i gytundeb gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar y taflenni a ddefnyddir amlaf y mae angen iddynt fod ar gael yn Gymraeg.	**Ar waith erbyn i'r cynllun gael ei gymeradwyo**
Trefniadau cyfieithu Nodi darparwr o gyfieithiadau Cymraeg er mwyn gwarantu cysondeb ac ansawdd	**Ar waith erbyn i'r cynllun gael ei gymeradwyo**
Adolygiad o'r wefan Sicrhau bod pob adran berthnasol o'r wefan ar gael yn Gymraeg. Bydd hyn yn cynnwys fersiynau electronig o'r holl ddogfennau a gyfieithwyd (gan gynnwys cynllun yr iaith Gymraeg ei hun), a rhagdudalen sydd â dolenni i ddeunyddiau Cymraeg a dolen i'r rhagdudalen ar hafan y wefan.	**O fewn 6 mis o gymeradwyo'r cynllun**
Perchnogaeth y cynllun Nodi uwch aelod o staff i gymryd cyfrifoldeb cyffredinol am gyflawni'r cynllun	**Ar waith erbyn i'r cynllun gael ei gymeradwyo**
Cyhoeddusrwydd i'r cynllun Rhoi cyhoeddusrwydd i'r cynllun ar y wefan ac unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd perthnasol.	**O fewn 3 mis o gymeradwyo'r cynllun**
Dewis iaith Rhoi mesurau yn eu lle i ddarganfod dewis iaith cwsmer.	**O fewn 6 mis o gymeradwyo'r cynllun**
Monitro'r gwasanaeth Rhoi mesurau ar waith i fesur galw ac i sicrhau y gall cwsmeriaid ddarparu adborth am wasanaeth yr iaith Gymraeg	**O fewn 6 mis o gymeradwyo'r cynllun**